

Twyll-len Mathemateg Python

Hanfodion, Symudiad, Lliw a Pen

<code>import turtle</code>	Yn sicrhau bod y gorchmynion Turtle ar gael ar gyfer ein rhaglen.
<code>shape ("turtle")</code>	Gosod y siâp. Gall fod yn turtle, circle, arrow neu classic.
<code>speed (4)</code>	Yn gosod cyflymder yr animeiddiad. 1 = arafaf, 10 = cyflymaf.
<code>forward (pellter)</code>	Symud ymlaen pellter o gamau e.e forward (100)
<code>backward (pellter)</code>	Symud yn ôl pellter o gamau. e.e. backward (100)
<code>right (ongl)</code>	Troi i'r dde (clocwedd) graddau ongl. e.e. right (120)
<code>left (ongl)</code>	Troi i'r chwith (gwrthglocwedd). e.e. left (72)
<code>goto (x, y)</code>	Mynd i'r safle x, y yn y grid. e.e. goto (100 , 120)
<code>color ("lliw")</code>	Gosod lliw llunio'r siâp i "lliw". e.e. color ("red")
<code>fillcolor ("lliw")</code>	Gosod lliw llenwi'r siâp i "lliw" e.e. fillcolor ("orange")
<code>begin_fill ()</code>	Yn nodi lleoliad cychwynnol y siâp i'w llenwi.
<code>end_fill ()</code>	Yn nodi safle gorffen y siâp i'w llenwi.
<code>penup ()</code>	Yn codi'r pen o'r sgrin i stopio llunio.
<code>pendown ()</code>	Yn gosod y pen i lawr ar y sgrin i ddechrau llunio.
<code>stamp ()</code>	Yn gwneud stamp o siâp y crwban ar y sgrin.

Twyll-len Mathemateg Python

Geiriau Allweddol

Rhaglennu
Iaith Rhaglennu
Turtle
Amodolion

Algorithmau
Python
Iteru

Rhaglennu (Programming) - Ysgrifennu cod cyfrifiadur i greu rhaglen sy'n datrys problem.

Algorithmau (Algorithms) - Cyfarwyddiadau cam wrth gam y gellir eu cynrychioli fel ffug-god (pseudo-code) neu siart llif. (flowchart)

Iaith Rhaglennu (Programming Language) - Yr iaith a ddefnyddir i ddarparu cyfarwyddiadau i'r cyfrifiadur.

Python - Iaith raglennu lefel uchel a ddatblygwyd gan Guido van Rossum.

Turtle - Llyfrgell o Python sydd â gorchmynion ar gyfer rhaglennu graffeg syml.

Iteru (Iteration) - Y broses o ailadrodd set o gyfarwyddiadau.

Amodolion (Conditionals) - Y broses o wneud gweithred yn seiliedig ar werth amod rhesymegol.